

## Ymddiriedolwr - Y Bartneriaeth Awyr Agored

**Cyflwg:** Does dim tâl ariannol ar gyfer ymddiriedolwyr, ond mae modd hawlio treuliau.

**Ymrwymiad amser:** Bydd yr ymrwymiad amser yn gywerth i 12 diwrnod y flwyddyn. Mi fydd hyn yn cynnwys tua 6 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn (tua 2 awr yr un)

**Dyddiad cau: Hanner dydd ar y 7fed o Fedi 2017**

### Disgrifiad Swydd

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn awyddus i gryfhau'r Bwrdd trwy benodi hyd at pedwar aelod anweithredol gydag arbenigedd a sgiliau yn y meysydd canlynol: Datblygu, Addysg a / neu Reolaeth Ariannol.

Mae swydd Ymddiriedolwr mudiad yn un cyffrous a boddhaol dros ben. Mae bwrdd sefydliad yn fwy effeithiol pan mae pobl o gefndiroedd amrywiol arno - pobl â phrofiadau a sgiliau gwahanol. Swyddogaeth yr Ymddiriedolwyr ydy sicrhau bod y Bartneriaeth Awyr Agored yn gwneud ei dyletswydd dros ei buddiolwyr ac yn gweithredu gweledigaeth, nod a gwerthoedd y Bartneriaeth.

**Ein Gweledigaeth** Sicrhau Cymru heini, iach a chynhwysol ble mae gweithgareddau awyr agored yn gyfle ar gyfer cyfranogi, mwynhau, llwyddo a gweithio, yn uno cymunedau ac yn creu defnydd a dealltwriaeth gynaliadwy o'r amgylchedd.

**Ein Nod** Cynnig cyfleoedd gwell i'r bobl leol yng ngogledd orllewin Cymru er mwyn iddyn nhw allu cyrraedd eu potensial drwy wneud gweithgareddau awyr agored.

### Dyma ddyletswyddau statudol Ymddiriedolwyr:

- Sicrhau bod y gymdeithas yn cydymffurfio â'i dogfen lywodraethol - Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.
- Sicrhau bod y gymdeithas yn dilyn ei hamcanion fel y nodir yn y ddogfen lywodraethol.
- Sicrhau bod y gymdeithas yn defnyddio'i hadnoddau er mwyn ceisio cyflawni'r amcanion yn unig - ni ddylai'r elusen wario ar weithgareddau nad ydyn nhw'n rhan o'i hamcanion, ni waeth pa mor 'elusennol' neu 'fuddiol' y boent.
- Cyfrannu at swyddogaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr o roi cyfarwyddyd strategol cadarn i'r gymdeithas, gosod y polisi cyffredinol, gosod y nodau a thargedau a gwerthuso perfformiad yn unol â'r targedau.
- Gwarchod enw da a gwerthoedd y gymdeithas.
- Sicrhau gweinyddu'r gymdeithas yn effeithiol ac effeithlon.
- Sicrhau bod y gymdeithas yn gadarn yn ariannol.
- Gwarchod a rheoli eiddo'r gymdeithas a sicrhau buddsoddi arian y gymdeithas yn ddoeth.
- Os ydy'r gymdeithas yn cyflogi gweithwyr, mae penodi Prif Weithredwr yn ddyletswydd ar yr Ymddiriedolwyr, yn ogystal â monitro ei berfformiad.

Yn ogystal â hyn, bydd yr Ymddiriedolwr yn dal yr elusen mewn ymddiriedolaeth (gydag ymddiriedolwyr eraill) ar gyfer buddiolwyr presennol a rhai'r dyfodol drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod gan y gymdeithas weledigaeth, nod a chyfeiriad strategol eglur a'i bod yn canolbwyntio ar gyflawni'r rhain.
- Bod yn gyfrifol am berfformiad yr elusen ac am ei hymddygiad 'corfforaethol'; sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoliadau.
- Ymddwyn fel gwarchodwr ar gyfer caffaeliadau'r elusen, y rhai diriaethol ac annirweddol rhoi gofal dyladwy am eu diogelwch, i ble maen nhw'n mynd a sut y'i defnyddir.
- Sicrhau bod trefn yr elusen o'r safon orau bosib.

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol amrywiol, dylai pob ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgil, gwybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddo er mwyn helpu'r bwrdd yn ei benderfyniadau.

Nid ydy'r rhestr uchod yn hollgynhwysol. Fe fydd disgwyl i'r Ymddiriedolwr ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol sy'n cyd-fynd yn rhesymol â'r swydd.

## Ymddiriedolwr - Y BARTNERIAETH AWYR AGORED

### Manyldeb Person

Os oes arnoch chi ddiddordeb mewn cyfrannu at waith a threfn elusen leol â'r nod o gynnis cyfleoedd gwell i bobl leol fel y gallan nhw gyrraedd eu potensial drwy wneud gweithgareddau awyr agored, ac os ydych chi'n dymuno helpu mireinio ein hamcanion strategol ar gyfer y dyfodol, cysylltwch â ni.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn awyddus i gryfhau'r Bwrdd trwy benodi hyd at pedwar aelod anweithredol gydag arbenigedd a sgiliau yn y meysydd canlynol: Datblygu, Addysg a / neu Reolaeth Ariannol.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol, ar y cyd ac yn unigol, am drefn gyffredinol a chyfeiriad strategol yr elusen, ei sefyllfa ariannol, cywirdeb ei gweithgareddau a datblygu nodau, amcanion a thargedau'r gymdeithas yn unol â'r ddogfen lywodraethol a chanllawiau cyfreithiol a rheoliadol.

Dylai pob ymddiriedolwr fod yn ymwybodol o'i ddyletswydd unigol ac ar y cyd, ac ni ddylai ddibynnu'n ormodol ar un neu fwy o ymddiriedolwyr eraill yn unrhyw agwedd o drefnu'r elusen.

### Profiad:

- Profiad llwyddiannus o weithio fel rhan o fwrdd un ai mewn cymdeithas elusennol, yn y sector cyhoeddus neu mewn sefydliad masnachol.
- Dangos profiad o feithrin a chynnal perthnasau gyda phrif randdeiliaid a chydweithwyr er mwyn cyflawni amcanion y gymdeithas
- Hanes y gellir ei brofi o farnu'n ddoeth ac o wneud penderfyniadau'n effeithiol.
- Hanes o fod yn ddiuedd, teg ac â'r gallu i gadw cyfrinachedd.
- Hanes o ddangos ymrwymiad at hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth

### Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth:

- Ymrwymiad i'r gymdeithas a pharodrwydd i roi'r amser ac ymdrech angenrheidiol.
- Parodrwydd i wneud argymhellion amhoblogaidd i'r bwrdd ac i fynegi barn.
- Parodrwydd i fod ar gael er mwyn rhoi cyngor i weithwyr ac i ateb ymholiadau fel y maen nhw'n dod.
- Barn dda, annibynnol a gweledigaeth strategol
- Deall a derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr ymddiriedolaeth
- Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm
- Deall swyddi'r Cadeirydd, yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr